| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Cynllunio |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 16 Tachwedd 2016 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd David Smith / Angela Loftus, Cynllunio Strategol a'r Rheolwr Tai |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai |
| **Teitl:** | **Nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft: Rhwymedigaethau Cynllunio – mabwysiadu'r ddogfen derfynol** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn nodi'r ymatebion a gafwyd yn dilyn yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus 8 wythnos ar y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) drafft: Rhwymedigaethau Cynllunio, yn cynnig diwygiadau i'r canllawiau ac yn argymell mabwysiadu yn unol â'r diwygiadau arfaethedig.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 **Yn dilyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Cynllunio ar 22 Mehefin 2016, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 8 wythnos rhwng dechrau mis Gorffennaf 2016 a diwedd mis Awst 2016. Adroddwyd ar y sylwadau a gafwyd ar y ddogfen ddrafft i gyfarfod Grŵp Llywio Aelodau'r CDLl ar 21 Medi 2016 a chytunodd yr Aelodau y dylai'r ddogfen gael ei hargymell i'r Pwyllgor Cynllunio i'w mabwysiadu.** Mae angen penderfyniad ar y cynnig i fabwysiadu'r CCA drafft bellach.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau yn mabwysiadu'r Nodyn Canllaw Cynllunio Atodol drafft: CCA Ymrwymiadau Cynllunio ynghlwm fel Atodiad I, gyda diwygiadau a argymhellir ar gyfer eu defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Pan gafodd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 - 2021 (CDLl) ei fabwysiadu ym mis Mehefin 2013, penderfynodd y Cyngor gario pob CCA mabwysiedig ymlaen i'w defnyddio fel canllawiau cynllunio mewn perthynas â pholisïau'r CDLl. Cytunwyd hefyd y byddai adolygiad o bob CCA yn cael ei wneud cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl mabwysiadu Cynllun a datblygu nifer o CCAau newydd. Mae'r CCA atodol yn ddogfen newydd, er ei bod yn ail-adrodd elfennau o'r canllawiau mabwysiedig presennol, fel Tai Fforddiadwy a Cynllunio a'r Iaith Gymraeg. Os caiff ei fabwysiadu, bydd y nodyn cyfarwyddyd newydd yn atodiad i Bolisi CDLl BSC3 'Sicrhau Cyfraniadau Seilwaith o Ddatblygiadau'.

4.2 Mae datblygiad yn aml yn creu angen ar gyfer mesurau penodol er mwyn lliniaru effaith, hebddynt gellid effeithio'n niweidiol ar amwynder lleol, gwasanaethau a safon yr amgylchedd. Bydd y CCA yn gymorth i sicrhau bod datblygiad yn cyfrannu tuag at ddarparu'r mesurau sy'n angenrheidiol i liniau ei effeithiau ac yn cwrdd amcanion polisi'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r canllawiau yn nodi agwedd gyffredinol y Cyngor tuag at rwymedigaethau cynllunio ac yn darparu manylion ar faterion gweithredol sy'n ymwneud â drafftio, monitro, a gorfodi rhwymedigaethau cynllunio. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi'r mathau o fesurau lliniaru y gallai'r Cyngor fod yn ceisio'u sicrhau gan y datblygiad a manylion am sut bydd cyfraniadau'n cael eu cyfrifo am amrywiaeth o eitemau seilwaith lle mae'r dystiolaeth yn arddangos angen. Mae hyn yn cynnwys tai fforddiadwy, adloniant a mannau agored cyhoeddus, trafnidiaeth gynaliadwy, addysg, amgylchedd naturiol ac adeiledig, datblygu cymunedol a hamdden, hyfforddiant a chyflogaeth, diogelwch cymunedol, gwelliannau strydlun a chelf gyhoeddus a'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig.

4.3 Mae rhwymedigaethau cynllunio yn gytundebau cyfreithiol rhwng Awdurdod Lleol a datblygwr/ tirfeddiannwr, ac unrhyw bartïon eraill sydd â buddiant yn y tir. Gallai hyn fod ar ffurf Cytundeb Adran 106 neu Ymgymeriad Unochrog ac yn hanesyddol, maent gan fwyaf wedi eu ceisio ar gyfer cefnogi Tai Fforddiadwy ac anghenion Mannau Agored. Mae Rhwymedigaethau Cynllunio fel arfer ar y tir yn hytrach na'r unigolyn sy'n ymwneud â'r cytundeb ac maent yn darparu peirianwaith ar gyfer sicrhau mesurau i liniaru effaith datblygiad ar adnoddau lleol y mae'n gysylltiedig â hwy yn ddaearyddol neu'n weithredol. Mae amodau cynllunio hefyd yn cael eu defnyddio fwyfwy fel modd o sicrhau mesurau lliniaru.

4.4 Mae'r CCA arfaethedig yn amlinellu disgwyliadau'r Cyngor o safbwynt rhwymedigaethau cynllunio er mwyn darparu canllawiau clir i ymgeiswyr posib, Aelodau a swyddogion er mwyn sicrhau bod anghenion posib yn glir o'r dechrau, ac felly'n cyflymu'r broses o wneud penderfyniadau.

4.5 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y canllawiau drafft rhwng 4 Gorffennaf 2016 a 2 Medi, 2016 am gyfnod o 8 wythnos. Roedd y ddogfen ddrafft ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor (www.sirddinbych.gov.uk). Roedd copïau caled hefyd ar gael yn llyfrgelloedd a siopau un stop y Cyngor. Ymgynghorwyd â phob Cyngor Dinas, Tref a Chymuned, ynghyd â phobl a sefydliadau sydd wedi'u cofrestru ar gronfa ddata y CDLl. Gellid gwneud sylwadau fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus drwy lythyr, e-bost neu ffurflen sylwadau i'r Tîm Cynllunio Strategol a Thai erbyn 2 Medi 2016.

4.6 Cafodd y Cyngor 10 o sylwadau gan grwpiau â diddordeb ac aelodau o'r cyhoedd; gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadw ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys. Mae'r Adroddiad Ymgynghori sydd ynghlwm fel Atodiad 1 yn cynnwys crynodebau o'r materion allweddol a godwyd ynghyd ag ymatebion unigol i sylwadau a gafwyd. Gellir cael copïau o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus drwy gysylltu â'r tîm Polisi Cynllunio yn Ninbych dros y ffôn: 01824 706916 neu drwy anfon e-bost: ldp@denbighshire.gov.uk.

4.7 Mae nifer o newidiadau mewn ymateb i'r sylwadau a gafwyd. Dangosir y rhain fel testun wedi'u hamlygu neu wedi'u ~~croesi~~ yn y ddogfen CCA ddrafft sydd ynghlwm.

4.8 Mae'r prif newidiadau arfaethedig yn cynnwys ychwanegu cyfeiriadau at AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a Thraphont Ddŵr Pontcysyllte a Chamlas Safle Treftadaeth y Byd, henebion cofrestredig a pharciau a gerddi cofrestredig; mân newidiadau i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol; a gwelliant i deitl Adran 15 i gynnwys cyfeiriad at ddarpariaeth gofal iechyd.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Blaenoriaethau Corfforaethol 2012-17. Bydd y canllaw cynllunio atodol yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at y blaenoriaethau corfforaethol canlynol:

- *Moderneiddio'r Cyngor i gyflawni effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid drwy sicrhau bod dogfennau canllawiau cynllunio yn gyfredol*
- *Datblygu'r Economi Leol* drwy ddarparu'r fframwaith ar gyfer gofyn am gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth leol addas fel rhan o'r cynigion datblygu newydd.
- *Strydoedd glân a thaclus* drwy ddarparu'r fframwaith ar gyfer sicrhau gwelliannau strydlun a mannau agored, yn ogystal â threfniadau ar gyfer cynnal a chadw yn y dyfodol.
- *Sicrhau mynediad i dai safonol* drwy amlinell anghenion tai fforddiadwy
- *Gwella perfformiad addysg a safon adeiladau ein hysgolion* drwy ddarparu'r fframwaith ar gyfer sicrhau cyfraniadau i ddarpariaeth addysgol

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Ni ragwelir y bydd cymeradwyo'r ddogfen CCA drafft i fod yn destun ymarfer ymgynghori gyda chyrff statudol a'r cyhoedd yn creu unrhyw gostau ychwanegol. Bydd y tîm Rheoli Datblygu yn elwa o fabwysiadu'r ddogfen wrth gyflenwi ein cwsmeriaid gyda'r holl wybodaeth angenrheidiol am rwymedigaethau cynllunio cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio, ac, felly, gwella'r broses penderfynu. Mae'r CCA yn darparu'r fframwaith er mwyn sicrhau cyfraniadau a fydd o gymorth i ddarparu gwasanaethau mewn gwasanaethau eraill fel Addysg a Phriffyrdd.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho'r adroddiad Asesiad o Effaith ar Les o'r wefan a dylai gael ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn**

7.1 Mae ymarfer sgrinio Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn dod i'r casgliad nad oes angen AEG (llawn). Mae'r templed AEG wedi'i lenwi a'i ddiweddaru wedi'i atodi yn Atodiad 3 yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

8.1 Roedd swyddogion o Bolisi Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Rheoli Datblygiad, Addysg, Priffyrdd, Gwasanaethau Cyfreithiol ac Economaidd a Datblygu Busnes y Sir yn rhan o waith drafftio'r ddogfen CCA. Ymgynghorodd y Cyngor ag ymgyngoreion statudol, gan gynnwys yr holl Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd ar y ddogfen ddrafft am gyfnod o 8 wythnos rhwng 4 Gorffennaf 2016 a 2 Medi 2016. Trafodwyd y ddogfen ddrafft a'r ymatebion i'r ymgynghoriad yng nghyfarfod Grŵp Llywio Aelodau'r CDLl ar 21 Medi 2016, a

chytunodd yr Aelodau y dylai'r ddogfen gael ei hargymell i'r Pwyllgor Cynllunio i'w mabwysiadu.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Ni ragwelir y bydd mabwysiadu'r CCA yn creu unrhyw gostau ychwanegol. Os bydd unrhyw gostau yn codi bydd angen eu cynnwys o fewn y cyllidebau refeniw presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn wneud i'w lleihau?**

10.1 Oherwydd absenoldeb unrhyw ganllawiau cyfredol mae risg na fydd y Cyngor yn gallu gofyn am y mesurau angenrheidiol i liniaru effaith datblygiad newydd ac y bydd diffyg eglurder ynghylch anghenion y Cyngor ar gyfer datblygwyr posib.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004)